

Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod mis Mai 2017 tan fis Mai 2018 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: Deryk Cundy	Adran Etholiadol: Bynea
----------------------------------	--------------------------------

Rhan 1: Rôl a Chyfrifoldebau
<i>Pwyllgorau'r Cyngor:</i>
Y Cyngor Llawn
Y Pwyllgor Craffu Cymunedau
Y Pwyllgor Penodi 'A' - Cyfarwyddwyr
<u>http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/mgAttendance.aspx?UID=135</u>

Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth
<p>Mae Bynea yn rhagori ar y disgwyliadau arferol gyda'r Cylch Beicio Caeëdig ym Mhen-bre bellach wedi'i agor. Terry Davies (Cawr ym myd Rygbi) oedd gwreiddyn y syniad yma, a dyma Clwb Beicio Bynea, Beicio Cymru, Beicio Prydain, Cyngor Sir Gâr a fi yn gweithio i wireddu'r syniad. Cychwyn y fenter oedd cyfarfod bach yng Nghapel Soar Pedair blynedd yn ôl ac erbyn hyn, wedi llawer o waith caled gan nifer o bobl, mae'r fenter wedi sicrhau buddsoddiad o £500,000 i feicio diogel i bawb ym Mharc Gwledig Pen-bre. Dyma'r lleoliad hefyd yn cael ei ddewis i fod yn gymal agoriadol The Tour of Britain! Wrth gwrs, rydyn ni'n ffodus bod Geraint Thomas wedi ennill Tour de France, y Cymro cyntaf i ennill y gystadleuaeth, ac roedd yn bleser ei weld yn seiclo'n lleol i ddathlu ei gamp. Mae Clwb Beicio Bynea eisoes wedi defnyddio'r cylch i helpu hyfforddi beicwyr ar sawl achlysur, dyma dystiolaeth o'r hyn y gallwn ni ei gyflawni pan rydyn ni'n cydweithio.</p> <p>Rwyf wedi gweithio â Swyddogion Bioamrywiaeth Cyngor Sir Gâr ac o ganlyniad mae maint Gwarchodfa Natur Berwig wedi cael ei estyn ac mae bellach wedi'i ddynodi'n warchodfa swyddogol. Mae'r statws newydd yma'n ein galluogi ni gyd i barhau i fwynhau planhigion unigryw'r warchodfa hon ar dro tawel.</p> <p>Gan droi at newyddion mwy diflas, rwyf wedi sicrhau bod cyfyngiadau parcio newydd ar ffurf llinellau melyn dwbl wedi'u gosod er mwyn stopio pobl rhag parcio eu ceir mewn ffordd sy'n rhwystro allanfeydd sy'n arwain at brif ffyrdd. Yn ddiweddar mae mynedfeydd pobl at eu tai wedi eu rhwystro o ganlyniad i barcio anystyriol, yn enwedig tu allan i ysgolion. Mae rhagor o gynlluniau o'r fath ar waith er mwyn atal damweiniau rhag digwydd ac i alluogi cerbydau'r gwasanaethau brys i gael mynediad at y llefydd sydd angen cael mynediad atyn nhw fwyaf. Dyma'n clymu'n daclus at y mater nesaf, goryrru. Byddwch wedi sylwi bod rhagor o arwyddion rhybuddio electronig ac arwyddion cyfyngiadau cyflymder wedi eu gosod er mwyn cynghori pobl i arafu. Ymgais i achub bywydau yw hyn. Ni allaf bwysleisio digon, diogelwch trigolion Bynea yw fy mhrif flaenoriaeth. Gyrrwch yn ddiogel. Bellach mae'r rhan fwyaf o'n hystadau yn barthau 20</p>

m.y.a. ac mae'r cyfyngiadau cyflymder hyn ar waith er mwyn amddiffyn plant a'r rheiny ohonom sy'n llai egnïol. Ond, yn ddiweddar, mae damwain wedi digwydd neu wedi bod yn agos at ddigwydd ar hyd Heol Cwmfelin, Heol Penderri, Heol y Trallwm a Heol Genwen.

Mae Fforwm Ardal Bynea wedi bod yn gweithio'n galed i godi arian a sicrhau rhoddion o'r ardal (mae nifer ohonoch eisoes wedi rhoi) ac mae'r fforwm eisoes wedi gosod 2 o ddifibrilwyr yn lleol, un yn Neuadd Saron ac un yn Garej Philips. Mae hefyd cynllun i osod diffibriliwr yn Neuadd yr Efengyl, Heol yr Orsaf. Mae'r fforwm hefyd yn gweithio i allu darparu coeden a golau Nadolig gyda chefnogaeth y Cyngor Gwledig a busnesau lleol.

Mae Ysgol Brynsiefel ac Ysgol Bynea wedi sicrhau cyllid trwy arian S106 ar gyfer y "prosiect siediau", prosiect sydd wedi ei nodi'n llwyddiant gan y ddwy ysgol. Mae'r Clwb Beicio a'r Clwb Rygbi hefyd wedi gallu cael mynediad at gyllid trwy'r Cyngor Sir ar gyfer prosiectau maent bellach yn eu cynnal.

Mae materion eraill yn cynnwys diffyg mynediad at gysylltiadau band eang da ym Mynea. Ar ôl i mi, Lee Waters (AC) a Nia Griffith (AS) ymyrryd, mae nifer o drigolion wedi llwyddo defnyddio ResQ - gweithrediad rhwydwaith tonnau micro, i gael mynediad at gysylltiad cyflymach. Rydym o hyd yn aros i BT gorffen gosod ceblau ffibr optig yn lleol a dydyn ni heb dderbyn unrhyw newyddion ynghylch pryd bydd y gwaith gosod yn dod i ben.

Mae Pwyllgor Neuadd Trallwm o hyd yn gwneud gwaith gwych yn darparu cinio twym i blant lleol am ddim dros gyfnod y gwyliau. Mae ein dwy neuadd gymunedol wledig (Saron a Thrallwm) yn ffynnu ac yn darparu gofodau lle gall clybiau gwrdd a chynnal digwyddiadau oherwydd gwaith caled ac ymdrechion gwirfoddolwyr lleol.

Mae rhai ohonoch chi wedi sylwi bod Chwarel Genwen ar werth. Rwyf wedi cynnig i'r adran blaen gynllunio ein bod ni'n dyrannu'r tir yma fel tir agored at ddibenion hamdden yn y Cynllun Datblygu Lleol nesaf. Rwyf hefyd wedi cyflwyno'r un cynnig am ardal Gwndwn Mawr.

Dyma oedd y materion mwyaf proffil uchel ond mae nifer o faterion eraill yr wyf i wedi helpu delio â nhw. Felly, os ydych yn teimlo fel y gallwn i fod o unrhyw gymorth o gwbl peidiwch ag oedi cyn cysylltu. Cysylltwch â mi trwy ffonio neu ddanfon neges testun at 07850 153837 neu e-bostio Dcundy@sirgar.gov.uk. Gallwn hefyd dod i gwrdd â chi.

Llofnodwyd gan y Cynghorydd: Deryk Cundy

Y Dyddiad: 11/10/18